# Adroddiad Blynyddol

# Blwyddyn 2023 – 2024

Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom ni | 5 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Ein Cwsmeriaid | 31 |
| **Adran 4** | Blaenoriaethau Busnes | 32 |
| **Adran 5** | Gwariant | 33 |


OGL © Crown copyright 2025, Welsh Government, WG51286, Digital ISBN 978-1-83715-243-8
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

# Rhagair

## *Croeso. Welcome.*

Dyma fy ail adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC) yn dilyn fy mlwyddyn lawn gyntaf yn y swydd.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn ddiddorol.

Mae ystadegau'r Tribiwnlys yn adlewyrchu'r ffaith y bydd yr apeliadau sy'n cael eu cofrestru o hyn ymlaen yn apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol a wneir o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf ADY"). Erbyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd ein hachos olaf sydd wedi'i gofrestru o dan fframwaith cyfreithiol Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi cael ei glywed. Nid ydym yn disgwyl y bydd llawer mwy o apeliadau (os bydd rhai) yn cael eu gwneud o dan yr "hen" gyfraith hon. A hynny oherwydd dylid cwblhau'r broses o drosglwyddo plant, sef y rheini o dan gategori Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu blant sydd â Datganiad, i Gynllun Datblygu Unigol (CDU) erbyn diwedd Haf 2025 fan bellaf.

Mae cyfanswm nifer yr apeliadau sydd wedi'u cofrestru gan TAC wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol, a'r hyn sydd wedi'i gynnwys mewn CDU a cheisiadau am benderfynu ar ysgol neu leoliad addysgol yw'r rhesymau mwyaf cyffredin dros apelio. Roeddem wedi disgwyl cynnydd yn nifer yr apeliadau wrth i'r Ddeddf ADY sefydlu i fod yn rhan o arferion bob dydd. Fodd bynnag, mae'n destun pryder bod nifer yr apeliadau mewn perthynas â phobl ifanc sy'n pontio i Addysg Bellach, plant mewn gofal, a phobl ifanc a gedwir yn gaeth, wedi bod mor isel.

Mater sydd dan sylw o hyd yw nad yw awdurdodau lleol yn hysbysu rhieni, plant na phobl ifanc mewn ffordd gyson a chlir o'r penderfyniad y maent wedi'i wneud o dan y Ddeddf ADY, nac ychwaith o'u hawl i apelio i TAC. Mae hyn yn ofynnol o dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cymru 2021. Mae llawer o'r ymholiadau sy'n dod i law tîm gweinyddu TAC wedi'u cyflwyno gan rieni sy'n ceisio cael gwybod a all achos gael ei gofrestru. Pan fydd awdurdod lleol yn cydymffurfio ac yn darparu'r wybodaeth honno, mae rhai awdurdodau lleol yn profi cyfraddau uwch o apeliadau yn sgil hynny.

Mae tystiolaeth gan rieni, plant a phobl ifanc yn parhau i gefnogi'r farn bod gwahaniaethau gwirioneddol o hyd o ran sut mae fframwaith cyfreithiol y Ddeddf ADY yn cael ei ddehongli a'i weithredu ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at yr ansicrwydd hwn yn y dystiolaeth lafar a roddais i'r Senedd ym mis Mawrth 2024. Mae'r ddeddfwriaeth yn parhau i gael ei disgrifio'n gywir fel "her ddeallusol".

Yn sgil hynny, mae TAC wedi ymrwymo i ddarparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ar y rhwystrau i ddehongliad clir o'r Ddeddf ADY, fel rhan o'r adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol a gyhoeddwyd gan Lynne Neagle, Ysgrifennydd y Cabinet, ym mis Hydref 2024.

Mae nifer yr hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion wedi aros yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fel rhan o weithdrefn newydd TAC, pan fydd achos wedi'i gofrestru rhoddir cyfarwyddiadau sy'n nodi'r amserlen ar gyfer proses yr apêl neu'r hawliad, sef o'r cam cofrestru i'r gwrandawiad. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod achosion yn gwneud cynnydd amserol dros y flwyddyn ddiwethaf a'u bod yn cael eu penderfynu fwyfwy o fewn 22 wythnos. Hoffem leihau hyd y cyfnod y mae'n ei gymryd ymhellach, os yw'n bosibl.

Mae cyflwyno cam rheoli achosion rhagweithiol fel rhan o'r amserlen honno, yn golygu y bydd Barnwr yn adolygu'r dogfennau mewn achos er mwyn sicrhau bod yr achos yn barod i'w glywed a gallu cadarnhau'r gyfraith sydd angen i'w weithredu. Mae'n sicrhau bod unrhyw dystiolaeth sy'n ofynnol i benderfynu achos wedi'i darparu, bod materion cyfreithiol wedi'u harchwilio, ac y gellir ystyried unrhyw newid mewn amgylchiadau cyn y gwrandawiad terfynol. O ganlyniad mae nifer yr achosion sydd wedi gorfod cael eu gohirio am nad oeddent yn barod i gael eu clywed a'u penderfynu gan y Tribiwnlys wedi gostwng. Bu cynnydd hefyd yn nifer y gorchmynion cydsynio a roddwyd i ddod â'r achos i ben. Mae'r rhain yn benderfyniadau terfynol sy'n dod ag achos i ben, sy'n cadarnhau bod y partïon wedi dod i gytundeb. Fe'u gwneir gan Farnwr sydd wedi adolygu'r dystiolaeth. Mae rheoli achosion yn ddull effeithiol o sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni'n gyflym.

Mae gwrandawiadau TAC yn parhau i gael eu cynnal trwy gynhadledd fideo oni bai bod parti yn gofyn am wrandawiad wyneb yn wyneb. Mae adborth gan ddefnyddwyr yn cadarnhau bod hyn yn parhau i fod yn ffordd boblogaidd ac effeithiol o gynnal busnes y Tribiwnlys. Er mwyn sicrhau bod pob gwrandawiad yn hygyrch, rydym wedi adolygu ein ffurflenni cais i'w gwneud yn glir sut mae unrhyw un sy'n anabl neu sydd wedi cyflwyno amgylchiadau arbennig yn gofyn am addasiad rhesymol i broses y tribiwnlys.

Mae TAC hefyd yn benderfynol o sicrhau bod proses y tribiwnlys yn parhau i fod yn hyblyg ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae'n rhwydd cynnal proses y tribiwnlys, gan gynnwys y gwrandawiad terfynol, drwy gyfuniad o Gymraeg a Saesneg, yn ogystal ag yn Gymraeg yn unig. Mae hyn yn golygu y gall pob parti, eu cynrychiolwyr a'u tystion, gyfathrebu yn eu dewis iaith, sy'n sicrhau bod safbwyntiau'n cael eu clywed yn glir a'u bod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Mae gweinyddwyr TAC yn parhau i weithio tuag at gyflawni eu Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gyson.

Edrychwn ymlaen at gyhoeddi Bil Diwygio'r Tribiwnlys, a fydd yn diwygio'r ffordd y mae Tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn cael eu strwythuro.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal pedwar cyfarfod o'r Fforwm Defnyddwyr (dau ar-lein a dau wyneb yn wyneb) a ddenodd dros 200 o gyfranogwyr. Gallwch gysylltu â thîm gweinyddu TAC i'ch cyfeiriad e-bost gael ei ychwanegu at y rhestr ddosbarthu er mwyn cael gwybod am y gyfres nesaf o gyfarfodydd y Fforwm. Mae croeso i bawb sydd â diddordeb yn TAC fod yn bresennol.

Dyma'r tro olaf imi adrodd ar weithgareddau TAC ar wahân i Dribiwnlysoedd datganoledig eraill Cymru. O hyn ymlaen, bydd fy adroddiad yn cael ei gynnwys mewn adroddiad cyfunol gan Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol.

Wrth inni symud i'r flwyddyn olaf y bydd yr 'hen' gyfraith AAA yn berthnasol, mae'r cydweithio rhwng TAC a'n partneriaid yn hanfodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru yn cael addysg a darpariaeth briodol o dan y Ddeddf ADY. Rhaid inni lwyddo i gyflawni hyn, neu bydd plant Cymru yn cael cam.

*Gan edrych ymlaen i ddal ati i weithio gyda chi'i gyd dros y flwyddyn nesaf!*
*Looking forward to working with you over the next year!*

**Y Barnwr Jane McConnell**
Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru

# Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:


Y sail ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC)
Swyddogaeth TAC
Rheoliadau TAC
Proses TAC
Aelodau TAC
Penodiadau
Hyfforddiant
Cysylltu â TAC
Defnyddio TAAAC.


## Y sail ar gyfer Tribiwnlys Addysg Cymru (TAC)

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, dan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Ailenwyd TAAAC yn Dribiwnlys Addysg Cymru (TAC) gan Adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae TAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (ALlau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAC a'i gymorth gweinyddol.

## Swyddogaeth TAC

Mae TAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhieni, plant a phobl ifanc sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r awdurdod lleol (ALl) neu'r Sefydliad Addysg Bellach wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn neu berson ifanc. Mae TAC hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

## Rheoliadau TAC

Mae TAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod bob achos a glywir gan TAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAC yn deall yn glir y camau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau TAC yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021
- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

## Proses TAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAC lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i hanfon i TAC.

Mewn gwrandawiad TAC mae'r panel yn cynnwys Barnwr sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Addysg. Mae'r Aelodau o'r Panel Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd, neu o bell drwy Wrandawiad Rhithwir.

## Aelodau TAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Barnwyr. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel Addysg.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cynorthwyo'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Barnwr** | Rheolir gwrandawiadau'r tribiwnlys gan farnwr tribiwnlys, ac mae'n rhaid bod gan y barnwr gymhwyster cyfreithiol. Byddant yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen. |
| **Aelodau Arbenigol o'r Panel** | Mae Aelodau Arbenigol o'r Panel yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd. |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partïon yn yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yn yr achos, ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon. |

Llywydd
Jane McConnel

Dirprwy Lywydd
Mark Allen

Barnwyr

Aelodau arbenigol

## Penodiadau

Penodwyd 5 Barnwr a 5 aelod arbenigol yn ystod y cyfnod adrodd.

## Hyfforddiant

Cynhaliodd y Tribiwnlys Gynhadledd Hyfforddiant Flynyddol ar gyfer ei aelodau ym mis Tachwedd 2023, a chynhaliodd Gynhadledd Hyfforddiant ynghylch Gwahaniaethu ar sail Anabledd ym mis Chwefror 2024.

## Cysylltu â TAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAC:

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad TAC:** | Tribiwnlys Addysg Cymru<br>Blwch Post 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW |
| **Llinell Gymorth TAC:** | 03000 259800 |
| **E-bost TAC:** | tribiwnlysaddysg@llyw.cymru |

## Defnyddio TAC

Mae TAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o'r staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os bydd angen dehonglwr iaith arwyddion arnoch yn y gwrandawiad, gallwn drefnu hynny.

Os oes gennych chi neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad unrhyw ofynion eraill o ran hygyrchedd neu fynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad, byddwn yn darparu ar gyfer hynny.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr/cyfieithwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y rheini sy'n mynd i'r gwrandawiad, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

Niferoedd ac ystadegau
Data Gwrandawiadau
Adolygiadau ac apeliadau pellach
Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
Cwynion.


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg yn ystod blwyddyn academaidd o fis Medi i fis Awst. Mae'r Tribiwnlys yn casglu'r data canlynol ar gyfer ystadegau:

| | |
|---|---|
| Apeliadau ADY ac AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Siart 2.1 |
| Y mathau o apeliadau ADY a ddaeth i law yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Tabl 2.2 |
| Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Tabl 2.3 |
| Y mathau o apeliadau AAA a ddaeth i law yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Tabl 2.4 |
| Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Tabl 2.5 |
| Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn ystod 2023-24 | Tabl 2.6 |
| Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn ystod 2023-24 | Tabl 2.7 |
| Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn ystod 2023-24 | Tabl 2.8 |
| Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn ystod 2023-24 | Tabl 2.9 |
| Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Siart 2.10 |
| Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn ystod 2023-24 | Tabl 2.11 |
| Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn ystod 2023-24 | Tabl 2.12 |
| Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn ystod 2023-24 | Tabl 2.13 |
| Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn ystod 2023-24 | Tabl 2.14 |
| Apeliadau ADY yn ôl canlyniad yn 2023-24 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2022-23 | Tabl 2.15 |
| Apeliadau AAA yn ôl canlyniad yn 2023-24 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2022-23 | Tabl 2.16 |

| | |
|---|---|
| Apeliadau ADY yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn 2023-24 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) | Tabl 2.17 |
| Apeliadau AAA yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn 2023-24 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) | Tabl 2.18 |
| Apeliadau ADY yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) | Tabl 2.19 |
| Apeliadau AAA yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) | Tabl 2.20 |
| Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw, gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen yn 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Siart 2.21 |
| Y mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23 | Tabl 2.22 |
| Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2021-22 | Siart 2.23 |

## Siart 2.1: Apeliadau ADY ac AAA a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2023-24, o’u cymharu â 2022-23 (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen)



## Tabl 2.2: Y mathau o apeliadau ADY a ddaeth i law yn ystod 2023-24, o’u cymharu â 2022-23

| Math o Apêl | 2023-2024 | 2022-2023 |
|---|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 8 | 16 |
| ALI i lunio a chynnal CDU | 6 | 2 |
| Yr angen yn y CDU | 0 | 0 |
| Y ddarpariaeth yn y CDU | 9 | 4 |
| Yr ysgol a enwir yn y CDU | 30 | 9 |
| Yr angen a'r ddarpariaeth yn y CDU | 4 | 0 |
| Yr angen, y ddarpariaeth a'r ysgol yn y CDU | 29 | 5 |
| Yr angen a'r ysgol yn y CDU | 1 | 0 |
| Y ddarpariaeth a'r ysgol yn y CDU | 7 | 2 |
| Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg | 1 | 0 |
| Gwrthod newid CDU | 2 | 0 |
| Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | 8 | 1 |
| Rhoi’r Gorau i Gynnal | 0 | 1 |
| Gwrthod penderfynu | 2 | 0 |
| Heb gadarnhau eto | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **107** | **41** |

### Tabl 2.3: Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24, o'u cymharu â 2022-23

| | 2023-2024 | | 2022-2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr Apeliadau | Canran yr Apeliadau % | Nifer yr Apeliadau | Canran yr Apeliadau % |
| Blaenau Gwent | 2 | 2% | 2 | 5% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | 2% | 1 | 2% |
| Caerffili | 3 | 3% | 3 | 7.5% |
| Caerdydd | 8 | 7% | 5 | 12% |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | 1% | 1 | 2% |
| Ceredigion | 1 | 1% | 0 | 0% |
| Conwy | 3 | 3% | 2 | 5% |
| Sir Ddinbych | 2 | 2% | 4 | 10% |
| Sir y Fflint | 2 | 2% | 2 | 5% |
| Gwynedd | 7 | 7% | 2 | 5% |
| Merthyr Tudful | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Sir Fynwy | 1 | 1% | 0 | 0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | 2% | 1 | 2% |
| Casnewydd | 8 | 7% | 2 | 5% |
| Sir Benfro | 2 | 2% | 0 | 0% |
| Powys | 4 | 4% | 4 | 10% |
| Rhondda Cynon Taf | 32 | 30% | 3 | 7.5% |
| Abertawe | 3 | 3% | 3 | 7.5% |
| Torfaen | 4 | 4% | 0 | 0% |
| Bro Morgannwg | 14 | 13% | 3 | 7.5% |
| Wrecsam | 4 | 4% | 2 | 5% |
| Ynys Môn | 2 | 2% | 1 | 2% |
| **Cyfanswm** | **107** | **100%** | **41** | **100%** |

### Tabl 2.4: Y mathau o apeliadau AAA a ddaeth i law yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23

| Math o Apêl | 2023-2024 | 2022-2023 |
|---|---|---|
| Gwrthod Asesu | 0 | 1 |
| Gwrthod rhoi Datganiad | 0 | 1 |
| Gwrthod Ailasesu | 0 | 2 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3 | 1 | 1 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4 | 3 | 10 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig | 0 | 2 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4 | 1 | 1 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig | 3 | 3 |
| Rhoi'r Gorau i Gynnal | 0 | 3 |
| Heb eu cofnodi | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **8** | **25** |

## Tabl 2.5: Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24, o'u cymharu â 2022-23

| | 2023-2024 | | 2022-2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr Apeliadau** | **Canran yr Apeliadau %** | **Nifer yr Apeliadau** | **Canran yr Apeliadau %** |
| Blaenau Gwent | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Caerffili | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Caerdydd | 0 | 0% | 3 | 12% |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0% | 2 | 8% |
| Ceredigion | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Conwy | 1 | 13% | 0 | 0% |
| Sir Ddinbych | 0 | 0% | 1 | 4% |
| Sir y Fflint | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Gwynedd | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Merthyr Tudful | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Sir Fynwy | 1 | 13% | 2 | 8% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 13% | 0 | 0% |
| Casnewydd | 0 | 0% | 1 | 4% |
| Sir Benfro | 0 | 0% | 1 | 4% |
| Powys | 0 | 0% | 3 | 12% |
| Rhondda Cynon Taf | 3 | 38% | 1 | 4% |
| Abertawe | 1 | 13% | 7 | 28% |
| Torfaen | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Bro Morgannwg | 0 | 0% | 4 | 16% |
| Wrecsam | 1 | 13% | 0 | 0% |
| Ynys Môn | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **8** | **100%** | **25** | **100%** |

### Tabl 2.6: Apeliadau ADY yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn 2023-24

| | A oes gan y plentyn ADY | ALI i lunio a chynnal CDU | Yr angen yn y CDU | Y ddarpariaeth yn y CDU | Yr ysgol a enwir yn y CDU | Yr angen a'r ddarpariaeth yn y CDU | Angen, Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 5 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 2 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 4 | 3 | 0 | 1 | 17 | 0 | 2 |
| Abertawe | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Bro Morgannwg | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 8 |
| Wrecsam | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **8** | **6** | **0** | **9** | **30** | **4** | **29** |

## Tabl 2.7: Apeliadau ADY yn ôl Awdurdod Lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn 2023-24

| | Yr angen a'r ysgol yn y CDU | Darpariaeth ac Ysgol yn y CDU | Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg | Gwrthod newid CDU | Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | Rhoi'r Gorau i Gynnal | Gwrthod penderfynu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 | 0 | 1 |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Bro Morgannwg | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **7** | **1** | **2** | **8** | **0** | **2** |


## Tabl 2.8: Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn 2023-24

| | Gwrthod Asesu | Gwrthod rhoi Datganiad | Gwrthod Ailasesu | Rhoi'r Gorau i Gynnal | Heb gadarnhau eto |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

### Tabl 2.9: Apeliadau AAA yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn 2023-24

| | Cynnwys Rhannau 2 a 3 | Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4 | Cynnwys Rhan 3 | Cynnwys Rhannau 3 a 4 | Cynnwys Rhan 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **3** | **0** | **1** | **3** |

## Siart 2.10: Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn ystod 2023-24, o'u cymharu â 2022-23



## Tabl 2.11: Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol a’r math o apêl 2023-24

| | Meithrin | Pontio Meithrin | Cynradd | Pontio Cynradd | Uwchradd | Pontio Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 0 | 0 | 3 | 0 | 5 | 0 |
| ALI i lunio a chynal CDU | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | 0 |
| Yr angen yn y CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y ddarpariaeth yn y CDU | 0 | 0 | 5 | 0 | 4 | 0 |
| Yr ysgol a enwir yn y CDU | 3 | 1 | 17 | 1 | 8 | 0 |
| Yr angen a'r ddarpariaeth yn y CDU | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Yr angen, y ddarpariaeth a'r ysgol yn y CDU | 1 | 0 | 15 | 1 | 12 | 0 |
| Yr angen a'r ysgol yn y CDU | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Y ddarpariaeth a'r ysgol yn y CDU | 2 | 0 | 0 | 2 | 3 | 0 |
| Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Gwrthod newid CDU | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | 0 | 1 | 5 | 0 | 2 | 0 |
| Rhoi’r Gorau i Gynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod penderfynu | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **2** | **52** | **6** | **40** | **0** |

[1] Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd

### Tabl 2.12: Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol a’r math o apêl 2023-24

| | Meithrin | Pontio Meithrin | Cynradd | Pontio Cynradd | Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwrthod Asesu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod Ailasesu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod rhoi Datganiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhoi’r Gorau i Gynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **3** | **0** | **5** |

## Tabl 2.13: Apeliadau ADY yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol 2023-24

| | Nifer yr apeliadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Meithrinfa | Pontio Meithrin | Cynradd | Pontio Cynradd | Uwchradd |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Caerffili | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 6 | 0 | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Conwy | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 1 | 3 | 0 | 3 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Casnewydd | 1 | 0 | 4 | 0 | 3 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 3 | 0 | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 1 | 11 | 2 | 13 |
| Abertawe | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Torfaen | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 8 | 1 | 5 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **7** | **2** | **52** | **6** | **40** |

## Tabl 2.14: Apeliadau AAA yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol 2023-24

| | Meithrin | Pontio Meithrin | Cynradd | Pontio Cynradd | Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **3** | **0** | **5** |

## Tabl 2.15: Apeliadau ADY yn ôl canlyniad 2023-24 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2022-23

| | 2023-2024 | | 2022-2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Canran | Gwirioneddol | Canran |
| Wedi'u caniatáu[2] | 0 | 0% | 1 | 2% |
| Wedi'u tynnu'n ôl[3] | 19 | 15% | 12 | 26% |
| Wedi'u cadarnhau'n llawn | 11 | 8% | 4 | 9% |
| Wedi'u cadarnhau'n rhannol | 4 | 3% | 2 | 4% |
| Gorchymyn Cydsynio | 34 | 27% | 0 | 0% |
| Wedi'u gwrthod/dileu | 6 | 5% | 5 | 11% |
| Gwrthod eu cofrestru | 1 | 1% | 0 | 0% |
| Ar y gweill | 52 | 41% | 22 | 48% |
| **Cyfanswm** | **127** | **100%** | **46** | **100%** |

2 Wedi'u caniatáu - caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALl yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach, ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn y mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.

3 Wedi'u tynnu'n ôl - bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor. Bydd apêl yn cael ei dynnu'n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb a'r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt.

## Tabl 2.16: Apeliadau AAA yn ôl canlyniad 2023-24 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen), o'u cymharu â 2022-23

| | 2023-2024 | | 2022-2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwirioneddol | Canran | Gwirioneddol | Canran |
| Wedi'u caniatáu[4] | 0 | 0% | 2 | 28% |
| Wedi'u tynnu'n ôl[5] | 3 | 14% | 15 | 31% |
| Wedi'u cadarnhau'n llawn | 3 | 14% | 1 | 4% |
| Wedi'u cadarnhau'n rhannol | 6 | 28% | 1 | 12% |
| Wedi'u gwrthod/dileu | 3 | 14% | 15 | 9% |
| Gorchymyn Cydsynio | 5 | 24% | 0 | 0% |
| Trosglwyddwyd | 1 | 3% | 0 | 0% |
| Ar y gweill[6] | 1 | 3% | 14 | 16% |
| **Cyfanswm** | **22** | **100%** | **48** | **100%** |

4 Wedi'u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALl yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn y mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.

5 Wedi'u tynnu'n ôl - bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor. Bydd apêl yn cael ei thynnu'n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partïon wedi dod i gytundeb a'r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt.

6 Ar y gweill – mae achos ar y gweill yn y tribiwnlys.

Tabl 2.17: Apeliadau ADY yn ôl canlyniad a’r math o apêl yn 2023-24 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

| | Wedi’u tynnu’n ôl | Wedi’u cadarnhau’n llawn | Wedi’u cadarnhau’n rhannol | Wedi’u gwrthod /dileu | Gwrthod eu cofrestru | Gorchymyn cydsynio | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A oes gan y plentyn ADY | 0 | 3 | 1 | 4 | 1 | 6 | 2 |
| ALI i lunio a chynal CDU | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| Yr angen yn y CDU | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y ddarpariaeth yn y CDU | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 | 2 |
| Yr ysgol a enwir yn y CDU | 9 | 0 | 1 | 2 | 0 | 7 | 16 |
| Yr angen a'r ddarpariaeth yn y CDU | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Yr angen, y ddarpariaeth a'r ysgol yn y CDU | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 | 9 | 17 |
| Yr angen a'r ysgol yn y CDU | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y ddarpariaeth a'r ysgol yn y CDU | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 |
| Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Gwrthod newid CDU | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Gwrthod ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 5 |
| Rhoi’r Gorau i Gynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod penderfynu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** | **11** | **4** | **6** | **1** | **34** | **52** |

Tabl 2.18: Apeliadau AAA yn ôl canlyniad a'r math o apêl yn 2023-24 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

| | Wedi'u tynnu'n ôl | Wedi'u cadarnhau'n llawn | Wedi'u cadarnhau'n rhannol | Wedi'u gwrthod /dileu | Gwrthod eu cofrestru | Gorchymyn cydsynio | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrthod Asesu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod rhoi Datganiad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwrthod Ailasesu | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhoi'r Gorau i Gynnal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4 | 1 | 1 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnwys Datganiad Rhan 4 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| Heb gadarnhau eto | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **3** | **6** | **3** | **1** | **5** | **1** |


## Tabl 2.19: Apeliadau ADY yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2023-24 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

| | Wedi'u tynnu'n ôl | Wedi'u cadarnhau'n llawn | Wedi'u cadarnhau'n rhannol | Wedi'u gwrthod /dileu | Gwrthod eu cofrestru | Gorchymyn cydsynio | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Caerffili | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Caerdydd | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Conwy | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Sir Ddinbych | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Gwynedd | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 6 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 5 | 1 |
| Sir Benfro | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Powys | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 0 | 0 | 1 | 0 | 9 | 19 |
| Abertawe | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Torfaen | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Bro Morgannwg | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 5 | 8 |
| Wrecsam | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Ynys Môn | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** | **11** | **4** | **6** | **1** | **34** | **52** |

## Tabl 2.20: Apeliadau AAA yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2023-24 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu dwyn ymlaen)

| | Wedi'u tynnu'n ôl | Wedi'u cadarnhau'n llawn | Wedi'u cadarnhau'n rhannol | Wedi'u gwrthod /dileu | Gwrthod eu cofrestru | Gorchymyn cydsynio | Ar y gweill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Abertawe | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Wrecsam | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **3** | **6** | **3** | **1** | **5** | **1** |


### Siart 2.21: Hawliadau sy’n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw (gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen) yn 2023-24, o’u cymharu â 2022-23




### Tabl 2.22: Y mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2023-24, o’u cymharu â 2022-23

| Y math o hawliad | 2023-2024 | | 2022-2023 | |
|---|---|---|---|---|
| Derbyniadau | 0 | 0% | 1 | 5% |
| Addysg | 8 | 44% | 8 | 40% |
| Gwaharddiadau | 1 | 6% | 2 | 10% |
| Derbyniadau ac Addysg | 2 | 11% | 1 | 5% |
| Derbyniadau a Gwaharddiadau | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Addysg a Gwaharddiadau | 4 | 22% | 4 | 20% |
| Derbyniadau, Addysg a Gwaharddiadau | 1 | 6% | 3 | 15% |
| Heb eu cofnodi | 2 | 11% | 1 | 5% |
| **Cyfanswm** | **18** | **100%** | **20** | **100%** |

## Siart 2.23: Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2023-24, gan gynnwys y rheini a gafodd eu dwyn ymlaen, o'u cymharu â 2022-23




Yn ystod 2023-2024 cynhaliodd y Tribiwnlys 112 o wrandawiadau, ac o'r rheini roedd 36 yn Wrandawiadau Rheoli Achos. O'r 76 gwrandawiad llawn, cynhaliwyd 72 fel gwrandawiadau rhithiol, cynhaliwyd 3 gwrandawiad wyneb yn wyneb a chynhaliwyd 1 gwrandawiad ar sail y papurau yn unig. Cynhaliwyd 2 wrandawiad yn Gymraeg.

| Math | Nifer y diwrnodau |
|---|---|
| Apêl | 58 |
| Hawliad | 18 |
| Papur | 1 (Apêl) |

## Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud ceisiadau am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. A gall partïon hefyd ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn credu bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith.

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwrthodwyd cais am ganiatâd i apelio o'r flwyddyn flaenorol.

Daeth 2 gais am adolygiad i law yn ystod y cyfnod adrodd, gwrthodwyd 1 ac adolygwyd y llall.

Daeth 4 cais am ganiatâd i apelio i law yn ystod y cyfnod adrodd. Adolygwyd 1 a gwrthodwyd y 3 arall.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fesur bodlonrwydd cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd gennym sy'n deillio o arolygon cyfnodol ar fodlonrwydd cwsmeriaid a ddarperir wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

## Cyflymder ein gwasanaeth

| Targed | Canlyniad |
| --- | --- |
| **Targed:** Cofrestru 95% o'r Apeliadau/Hawliadau o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais am yr Apêl / Hawliad | → **Cyflawnwyd y targed mewn 77% o achosion** |
| **Targed:** Cyhoeddi 75% o benderfyniadau o fewn 10 diwrnod i'r gwrandawiad | → **Cyflawnwyd y targed mewn 54% o achosion** |
| **Targed:** Ymdrin â 75% o'r Apeliadau/ Hawliadau o fewn 20 wythnos | → **Cyflawnwyd y targed mewn 60% o achosion** |

## Cwynion

Derbyniodd y Tribiwnlys 2 gŵyn yn ystod y flwyddyn, a chafodd un ohonynt ei gadarnhau.

# Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid.

## Arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Rydym yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â chyfathrebu a'r gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys lefel y bodlonrwydd o ran lleoliad y gwrandawiad, y cymorth a roddir gan staff, a gwefan y tribiwnlys.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2023-2024.

## Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2023-2024

Mae'n bwysig bod TAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

- Sicrhau y gall plant a phobl ifanc ag AAA, ADY ac Anableddau fanteisio ar y system cyfiawnder yn effeithiol.
- Cyflwyno Hyfforddiant Barnwrol sy'n canolbwyntio ar wahaniaethu ar sail anabledd a chyfraith ADY.
- Darparu gwrandawiadau hyblyg yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â chais gan bartïon.
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Fforwm Defnyddwyr ledled Cymru ac ar-lein.
- Diweddaru gwefannau ac adnoddau Tribiwnlys Addysg Cymru.
- Gweithredu newidiadau i weinyddiaeth y tribiwnlys a'i brosesau i gyflawni penderfyniadau teg, cyfiawn ac amserol.
- Paratoi at symud i unrhyw strwythur newydd a gyflwynwyd ar gyfer y Tribiwnlys yng Nghymru.

# Adran 5 – Gwariant – i’w diweddaru

Yn yr adran hon:

Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024.

## Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau’r aelodau ar gyfer achosion y tribiwnlys | £288,000 |
| Costau eraill y Tribiwnlys | £17,000 |
| **Cyfanswm** | **£306,000** |

* wedi’i dalgrynnu i’r £1,000 agosaf